

Gwybodaeth i Gleifion Enterococci sy'n wrthiannol i Vancomycin

Tîm Atal Heintiau

Ysgrifennwyd y daflen hon i roi gwybodaeth i chi am fath o facteria o'r enw enterococci sy'n wrthiannol i vancomycin a'r heintiau y gall eu hachosi. Gobeithio y bydd yn ganllaw defnyddiol i chi yn ychwanegol at yr eglurhad a'r wybodaeth a gawsoch gan ein staff.

Os bydd gennych unrhyw gwestiwn neu eich bod am gael mwy o wybodaeth, cofiwch ofyn i'r nyrs neu'r meddyg sy'n gofalu amdanoch. Gallwch hefyd ofyn i Nyrs Atal Heintiau alw i'ch gweld.

Beth yw enterococci sy'n wrthiannol i vancomycin?

Math o facteria yw Enterococci sydd i'w gweld bob amser yn y corff dynol. Mae'r math hwn o facteria yng ngholuddion pob un ohonom ac mewn rhai merched. Maen nhw hefyd yn ardal y fagina a'r llwybr wrinol. Mae enterococci hefyd i'w gweld yn aml yn yr amgylchedd.

Weithiau, mae enterococci yn achosi heintiau yn y llwybr wrinol, yn y llif gwaed neu mewn briwiau. Caiff yr heintiau hyn eu trin yn aml gyda gwrthfotig o'r enw vancomycin. Weithiau, fodd bynnag, mae enterococci yn wrthiannol i'r gwrthfotig hwn - mewn geiriau eraill, nid yw vancomycin yn gweithio yn eu herbyn. Gelwir y rhain yn enterococci sy'n wrthiannol i vancomycin neu VRE.

Pwy sydd mewn perygl o gael haint oherwydd VRE?

Y bobl sydd mewn perygl mwyaf o gael haint oherwydd VRE yw'r rhai:-

- Sydd wedi bod mewn ysbyty am gyfnod hir.
- Sydd â systemau imiwnedd gwan, cleifion trawsblannu er enghraifft neu'r rhai sydd mewn gofal dwys.
- Sydd wedi cael llawdriniaeth ar ardal yr abdomen neu'r frest.
- Sydd â dyfeisiau meddygol fel cathetrau neu ddiferion sydd wedi bod yno am gyfnod hir.
- Sydd wedi cael triniaeth flaenorol gyda gwrthfotigau fel vancomycin a cefuroxime.

Beth fydd yn digwydd os byddan nhw'n darganfod fod gen i VRE?

Yn gyffredinol, os byddan nhw'n darganfod bod VRE wedi *cytrefu* ynoch, hynny yw, bod y bacteria yn neu ar eich corff, ond nad oes gennych symptomau haint, ni fydd yn rhaid i chi gael unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn ni'n rhoi golchiad corff arbennig i chi i ostwng y nifer o facteria ar eich corff ac felly gostwng y perygl i'r haint ddatblygu.

Os byddan nhw'n gweld bod gennych *haint* wedi'i achosi gan VRE, yna byddwn yn eich trin gyda gwrthfotigau. Er bod VRE yn wrthiannol i vancomycin, mae gwrthfotigau eraill y gellir eu defnyddio. Byddwn yn cynnal profion labordy i benderfynu pa gyffur fydd yn trin eich haint orau.

Gofal Nyrsio

Beth fydd yn digwydd os byddan nhw'n darganfod bod gennych VRE. Bydd hyn yn dibynnu a fyddwch chi neu'r cleifion yn eich ymyl yn y ward mewn perygl o gael haint gyda'r bacteria hyn. Mae'n bosibl y byddwn yn dal i ofalu amdanoch yn yr un lle ac yn yr un modd â chynt. Byddwn yn cadw llygad mwy manwl arnoch am unrhyw arwyddion o haint ac mae'n bosibl y byddwn yn glanhau'r lle o'ch cwmpas yn amlach i ostwng y perygl i'r bacteria ymledu. Bydd hyn os:-

- Byddwn ni'n meddwl bod eich corff yn ddigon cryf i gadw'r bacteria VRE dan reolaeth.
- Byddwch chi'n derbyn gofal mewn ward lle mae cleifion eraill yn gymharol iach yn gyffredinol ac felly'n annhebygol o gael haint hyd yn oed os bydd y bacteria VRE yn cael ei drosglwyddo iddyn nhw.
- Bydd y bacteria VRE yn cael eu darganfod yn eich ysgarthion neu wrin yn hytrach nag er enghraifft mewn clwyf.

Mae'n bosibl y byddwn yn eich symud o'r ward i ystafell sengl gyda chyfleusterau toiled ar wahân. Bydd glanhawyr yn glanhau'r ystafell yn fwy trwyadl ac yn gwisgo menig a ffedogau wrth ofalu amdanoch. Mae'n bosibl hefyd y byddwch chi'n cael cyfarpar meddygol eich hun. Mae hyn i gyd yn gostwng y perygl i'r bacteria VRE drosglwyddo i gleifion eraill. Bydd hyn os:-

- Byddwn ni'n meddwl y byddwch chi neu gleifion o'ch cwmpas mewn risg uchel o gael haint o VRE, efallai oherwydd bod eich system imiwnedd yn wan neu oherwydd bod gennych friwiau neu ddyfeisiau meddygol fel llinell fewnwythiennol Hickman neu ganolog ayyb.
- Ydych chi'n derbyn gofal mewn man lle mae cleifion eraill hefyd mewn perygl mawr o gael haint.
- Gwelir y bacteria VRE mewn rhan o'r corff lle byddwn ni'n meddwl y mae'n debygol o achosi haint: efallai mewn briw.

A fydda i'n cael prawf VRE pan fydda i'n dod i mewn i'r ysbyty?

Gan fod VRE yn gallu byw yn eich corff heb achosi unrhyw broblemau, ni fyddwn fel arfer yn profi amdano pan fyddwch chi'n dod i mewn i'r ysbyty. Weithiau, mae'n cael ei ganfod yn ystod prawf arferol sydd ei angen efallai pan fyddwch chi mewn ysbyty.

Alla i wella o VRE?

Mae'n bosibl y bydd VRE yn diflannu ohono'i hun yn y pen draw, yn arbennig os byddwch chi'n cymryd gwrthfotigau. Fodd bynnag, gan fod enterococci fel arfer yn byw yn y corff, mae'n bosibl y byddwch chi'n parhau i fod yn gludwr am byth. Ni ddylai'r bacteria achosi unrhyw broblemau os ydych chi'n gyffredinol iach.

Beth sy'n digwydd pan fydda i'n cael fy rhyddhau o'r ysbyty?

Os bydd gennych VRE, nid oes yn rhaid cymryd unrhyw ragofalon ar ôl mynd adref. Cofiwch olchi eich dwylo'n drwyadl ar ôl bod yn y toiled a chyn paratoi bwyd a glanhewch eich ystafell ymolchi'n rheolaidd ac yn drwyadl.

Dylech sôn eu bod wedi darganfod VRE wrth unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd sy'n gofalu amdanoch yn y dyfodol. Mae'n bosibl y byddan nhw'n eich profi eto am y bacteria ac os bydd yn dal yno, byddan nhw'n gofalu amdanoch i ffwrdd oddi wrth gleifion eraill sydd mewn perygl o gael yr haint. Yn ddi-os, byddan nhw'n sicrhau eich bod yn cael y gwrthfotigau cywir os byddwch chi'n cael haint yn y dyfodol.

Beth alla i ei wneud i helpu i atal y VRE a bacteria a heintiau eraill rhag lledaenu?

Golchi dwylo gyda sebon a dŵr yw'r dull mwyaf effeithlon o atal heintiau rhag lledaenu mewn ysbyty. Gallwch chi ein helpu i ymladd yr haint drwy sicrhau eich bod chi a'ch ymwelwyr yn golchi eich dwylo'n rheolaidd, yn arbennig ar ôl bod yn y toiled a chyn bwyta. Gallwch chi hefyd lanhau eich dwylo gyda'r hylif dwylo alcohol sydd ar gael yn y ward. Dylid defnyddio'r rhain hefyd gyda golchi dwylo gan nad ydyn nhw bob amser yn effeithlon ar eu pen eu hunain.

Byddwch chi'n sylwi bod ein staff hefyd yn golchi eu dwylo'n rheolaidd, eu bod weithiau'n gwisgo ffedogau a menig y gellir eu taflu a bod pob arwynebedd yn cael ei lanhau'n rheolaidd. Eto, mae hyn i gyd yn helpu i atal heintiau rhag lledu.

Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

Gellir trafod unrhyw bryderon eraill gyda staff yr ysbyty (nyrsys, staff meddygol) neu gall aelod o'r gall Tîm Atal Heintiau dod i ymweld â chi.

TÎM ATAL HEINTIAU

Ysbyty Nevill Hall	01873 - 732048
Ysbyty Brenhinol Gwent	01633 - 238101 / 234921
Cymuned, Glowyr Caerffili	07903 - 324603